ENTREPRENEUR ELUSENNOL

Dros y 30 mlynedd diwethaf, mae Tywysog Cymru wedi llwyddo i adnabod angen elusennol ac i sefydlu a hybu elusennau i gwrdd â'r angen yna. Ers dyddiau cynnar ei ymddiriedolaeth, *The Prince's Trust*, yng nghanol yr 1970au, tyfodd ei ddiddordebau elusennol i'r fath raddau fod ei 16 elusen graidd yn cynrychioli, fel grŵp, menter elusennol fwyaf y DU sy'n cwmpasu amryw o achosion.

Mae'r elusennau'n cynrychioli safbwynt arloesol tymor hir y Tywysog. Gyda'i gilydd, maen nhw'n ceisio rhoi sylw i anghenion sydd, hyd yn hyn, heb eu cwrdd. Arweiniodd gwaith Elusennau'r Tywysog at sefyllfa lle y bu gofyn i'w Uchelder Brenhinol helpu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i godi yn 2004-05 ryw £109 miliwn i gefnogi'u gweithgareddau.

£109 MILIWN AT ELUSENNAU

Fel entrepreneur elusennol, efallai fod Tywysog Cymru'n fwyaf enwog am sefydlu *The Prince's Trust*, elusen sy'n bod i helpu pobl ifanc i oresgyn eu rhwystrau a sicrhau llwyddiant eu bywydau. Yr ymddiriedolaeth yma yw elusen fwyaf y wlad i bobl ifanc ac, mewn nifer o ffyrdd, mae'n cynnig patrwm at ddull gweithredu Ei Uchelder Brenhinol ym maes entrepreneuriaeth elusennol. Ar ôl adnabod angen, mae'n mynd ati i sefydlu elusen i lenwi'r bwlch, cyn mynd ymlaen i oruchwylio'i strategaeth a'i dull rheoli ac i godi arian i gefnogi'i gweithgareddau.

Ers i *The Prince's Trust* gael ei sefydlu yn 1976, mae Ei Uchelder Brenhinol wedi sefydlu neu fynd yn Llywydd ar 16 mudiad sy'n canolbwyntio ar feysydd sy'n ganolog i fywydau pobl: eu cartrefi a'u cymunedau, eu hiechyd, eu haddysg, eu gwaith, yr amgylchedd a'r celfyddydau.

Mae eu gwaith yn amrywio o waith arloesol gyda phobl ifanc i adfer a meithrin amgylchedd iach, a hybu ymdeimlad o gyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol ymysg arweinwyr busnesau'r byd. Yn ogystal â'r mudiadau gweithredu craidd, mae dwy elusen ariannu, sef Mudiad Elusennol y DU (*The UK Charitable Foundation*) a Mudiad UDA (*The US Foundation*). Mae'r ddwy'n cael eu rheoli gan Swyddfa Tywysog Cymru. Mae Tywysog Cymru'n cefnogi'i elusennau drwy ei sefydliadau elusennol, yn arbennig drwy *Duchy Originals*. Un o brif gwmnïau bwydydd a diodydd organig a naturiol y DU yw *Duchy Originals*, ac mae holl elw'r mudiad yn mynd i Fudiad Elusennol y DU.

Tra bo'r holl elusennau'n endidau annibynnol sydd â'u byrddau rheoli'u hunain, buon nhw'n gweithio'n agos gyda'i gilydd i fanteisio ar eu cysylltiadau cyffredin ac i ymdrechu er lles y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Dros y flwyddyn ddiwethaf, daeth uwch-dimau'r 16 elusen at ei gilydd dan adain y Swyddfa Elusennau newydd, dan arweiniad Syr Tom Shebbeare. Y nod yw gweithio gyda'i gilydd ar faterion fel rheoli corfforaethol, codi arian, cynllunio a chyfathrebu.

Gyda'i gilydd, mae'r elusennau wedi mabwysiadu cod ymddygiad gwirfoddol wrth roi sylw i'r materion yma. Maen nhw hefyd wedi mabwysiadu enw i'r grŵp, Elusennau'r Tywysog, a rhoi eu pwrpas cyfunol mewn geiriau (cyfeiriwch at dudalen 52). Mae'r Swyddfa Elusennau hefyd yn gweithio ar fentrau newydd, fel Menter Tywysog Cymru yn India, ac yn gofalu am dwf a datblygiad mentrau sy'n bod yn barod, fel yr Ysgol Haf Addysg. Yn ogystal â'i elusennau craidd, mae'r Tywysog yn Llywydd neu'n Noddwr ar 352 o elusennau eraill, ac mae'n dangos diddordeb byw ym mhob un.

MENTER YN INDIA

Yn ystod ymweliad swyddogol Tywysog Cymru ag India yn yr hydref 2003 (mae manylion yn dilyn), fe gafodd Ei Uchelder Brenhinol gyfle i gwrdd sawl mudiad gwirfoddol roedd eu gwaith wedi gwneud argraff fawr arno. Gymaint oedd eu dylanwad fod Tywysog Cymru wedi penderfynu, ar ôl dod yn ôl i'r DU, y byddai'n datblygu cefnogaeth ariannol ac ymarferol yn y tymor hir i'r grwpiau yma.

Arweiniodd hyn at sefydlu Menter Tywysog Cymru yn India. Project yw hwn sy'n cynnwys grŵp o fudiadau sy'n weithgar mewn nifer o wahanol feysydd – dŵr a gofal iechyd, treftadaeth, sgiliau crefft a chynllunio cymunedol ac entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc – ond mae amcanion ac athroniaeth y naill a'r llall yn debyg iawn. Bwriad y naill fudiad a'r llall yw ceisio cychwyn ac arwain projectau sy'n creu'r sylfeini ar gyfer datblygu cynaliadwy – sylfaen unrhyw wir wella mewn amodau byw.

Er bod canolbwynt y naill fudiad a'r llall yn amrywio, pwyslais pob un yw annog y gymuned i gymryd rhan a gweithio'n agos gyda phobl dan anfantais a gafodd gyfleoedd prin. Mae cyfrannu at waith mentrau llwyddiannus ar lefel leol yn creu hunanhyder ac ewyllys i lwyddo. Mewn amgylchedd gwledig gan mwyaf lle mae bywyd dyddiol yn gallu bod yn ansicr, gall projectau lleol llwyddiannus adfywio ardal a gwella bywyd dyddiol yn sylweddol.

Thema ganolog arall yw dymuniad y mudiadau yma i wneud y gorau o'r hyn sydd eisoes ar gael ac i ddefnyddio stôr India o wybodaeth a dulliau traddodiadol i fynd i'r afael â'u problemau. Drwy fabwysiadu'r dull yma o weithredu, mae projectau unigol yn fwy tebygol o oroesi yn y tymor hir a pheidio â dibynnu o hyd ar gefnogaeth arwyddocaol allanol.

Gobaith Tywysog Cymru yw y bydd ei fenter yn India yn datblygu ar ôl ei ymweliad, ar sail ei ddiddordeb dwfn a pharhaus yn y wlad a'i rhan yng ngwaith rhai o'r mudiadau elusennol. Mewn nifer o ffyrdd, mae gwaith ac athroniaeth y grwpiau partner yn adlewyrchu gwaith ac athroniaeth elusennau'r Tywysog ei hun, fel *The Prince's Trust*. Cynigia'r naill a'r llall gefnogaeth i'r rhai sydd dan anfantais na fyddai, fel arall, ar gael. Y nod yw cynnig gwir fuddsoddiad at y dyfodol.

"Roedd dim ond bod yno a llwyddo i gyrraedd y cam yna'n gwneud i mi deimlo'n ddigon da. Pe tasaf i heb fynd at *The Prince's Trust*, wn i ddim ble y byddwn i'n awr. Fe allwn i fod yn ôl yn y carchar neu'n farw. Fe ddangosodd i mi fod mwy i fywyd na chyffuriau a throseddu. Rwyf i wedi ennill fy symbyliad a fy hunan-barch yn ôl." Jaspaul Shemaar, 2005

CYFLE A MENTER

The Prince's Trust yw elusen hynaf ac enwocaf Ei Uchelder Brenhinol. Sefydlodd y mudiad yn 1976 gyda'r tâl diswyddo o £7,400 a gafodd wrth adael y Llynges Frenhinol. Ei nod yw helpu pobl ifanc 14 - 30 oed i wireddu eu potensial a gweddnewid eu bywydau drwy gynnig cefnogaeth ymarferol fel hyfforddiant, mentora a chymorth ariannol. Mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio'i hymdrechion ar y rheini sydd wedi cael trafferthion yn yr ysgol, wedi bod mewn gofal, wedi bod mewn helynt gyda'r gyfraith neu sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir.

Nod *The Prince's Trust* yw helpu pobl ifanc sydd yn aml heb unrhyw un arall y gallan nhw droi atyn nhw am gefnogaeth. Ond mae ei Rhaglen Fusnes, sy'n cynnig arian a chefnogaeth i gwmnïau sy'n cychwyn, yn enghraifft berffaith o'r ffordd y gall yr elusen wneud gwahaniaeth i fywydau pobl a chynnig budd i'r gymuned ehangach. Fe ddathlodd y rhaglen ei phen-blwydd yn 21 y llynedd ac, ers ei lansio yn 1983, mae dros 60,000 o entrepreneuriaid ifanc wedi defnyddio cefnogaeth yr Ymddiriedolaeth i sefydlu busnesau, gan greu 100,000 o swyddi newydd wrth wneud hynny.

Fe gafodd pen 21 mlynedd y rhaglen ei ddathlu drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau ac arddangosfeydd oedd yn cydnabod yr hyn a gyflawnwyd gan y rheini a ddechreuodd fusnesau gyda help yr Ymddiriedolaeth. Arweiniodd y dathlu at gynhadledd "Enterprise 21" ym mis Tachwedd yng nghwmni Ei Uchelder Brenhinol a Changhellor y Trysorlys, Mr Gordon Brown. Wrth annerch y gynhadledd, talodd Mr Brown deyrnged i'r hyn roedd yr elusen wedi'i gyflawni: "I raddau helaeth, mae'n bosib priodoli'r twf cyflymaf mewn hunangyflogaeth yn ein hanes i ysbrydoliaeth *The Prince's Trust*."

Un arall o uchafbwyntiau blwyddyn yr Ymddiriedolaeth oedd dathlu'r Gwobrwyon Dathlu Llwyddiant (*Celebrate Success Awards*) ym mis Chwefror 2005. Digwyddiad am un tro'n unig oedd hwn yn Theatr

y Lyceum yn Llundain i gydnabod cyflawniadau pobl ifanc a gafodd eu helpu gan yr elusen ac i ddiolch i staff, gwirfoddolwyr a chyrff partner yr Ymddiriedolaeth am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd.

Roedd Jaspaul Shemaar, un a gyrhaeddodd rownd derfynol un o'r gwobrwyon, yn crynhoi teimladau llawer o'r bobl a elwodd drwy gefnogaeth yr Ymddiriedolaeth pan ddywedodd: "Roedd dim ond bod yno a llwyddo i gyrraedd y cam yna'n gwneud i mi deimlo'n ddigon da. Pe tasaf i heb fynd at *The Prince's Trust*, wn i ddim ble y byddwn i'n awr. Fe allwn i fod yn ôl yn y carchar neu'n farw. Fe ddangosodd i mi fod mwy i fywyd na chyffuriau a throseddu. Rwyf i wedi ennill fy symbyliad a fy hunan-barch yn ôl.

Daeth un o fentrau diweddaraf yr Ymddiriedolaeth i fod ym mis Ebrill 2004 wrth i ŵyl gerddoriaeth gyfoes gyntaf yr Ymddiriedolaeth – *the Urban Music Festival* - gael ei chynnal yn Earls Court yn Llundain. Drwy ddefnyddio dylanwad cryf cerddoriaeth gyfoes, nod yr ŵyl yw dod yn rhan o fywydau rhai o bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd y DU a hybu rhai o'r ffyrdd cadarnhaol o lwyddo drwy'r diwydiant gerddoriaeth gyfoes.

Roedd y digwyddiad yn 2004 yn cynnwys sêr o Brydain ac UDA fel Dizzee Rascal, Jamelia a Beyonce, ac roedd yn llwyfan hefyd i dalentau newydd. Drwy gynnal cyfres o nosweithiau i dalentau ifanc, fe gynigiodd yr Ymddiriedolaeth sylw i sêr newydd o bob rhan o'r DU, yn ogystal â grŵp o bobl ifanc a fu'n dilyn ei Rhaglen Sain Fyw. Mae'r rhaglen chwe mis yma'n datblygu talentau cerddorol pobl ifanc, yn codi'u hunanhyder ac yn gwella'u sgiliau.

Prif seren y digwyddiad oedd Jay-Z, cerddor hip-hop o America, ac ar ôl cwrdd y Tywysog fe ddywedodd: "Mae'n hyfryd gweld rhywun mor amlwg yn helpu pobl ifanc ac yn rhoi ail gyfle iddyn nhw ar eu bywydau. Fe gefais i fy magu mewn ardal galed. Petai rhywbeth fel *The Prince's Trust* wedi bod ar gael i mi, fe fuaswn i'n bendant wedi gwneud y gorau o'r cyfle."

Er 1988, lledwyd awydd Ei Uchelder Brenhinol i greu cyfleoedd a chefnogi menter ar gyfer oedolion ifanc at genedlaethau hŷn drwy ei elusen PRIME (Menter y Tywysog ar gyfer Menter Aeddfed). Dyma unig fudiad y wlad sy'n bodoli'n unswydd i helpu'r rheini dros 50 oed i sefydlu busnesau. Yn ystod saith mlynedd gyntaf ei fodolaeth, mae PRIME wedi rhoi cyngor a benthyciadau i dros 5,000 o entrepreneuriaid.

Mewn derbyniad yn Llundain fis Tachwedd diwethaf, fe gwrddodd y Tywysog â rhai o'r bobl mae PRIME wedi'u cefnogi, yn cynnwys Owen Thompson sydd, yn 72 oed, yn o'r hynaf i elwa ar yr elusen. Fel cyn-athro a gwerthwr hynafolion, fe sefydlodd Mr Thompson gwmni ymgynghori o'r enw Seadacs ar sail benthyciad o £4,000 gan PRIME. Erbyn hyn, mae Mr Thompson yn cynghori cynghorau, y Canolfannau Cynghori a chyrff eraill ar wahanol agweddau ar amrywiaeth.

Esboniodd Mr Thompson ei fod wedi sefydlu'i fusnes ei hun gan ei fod yn teimlo fod profiad helaeth ganddo y gallai ei gynnig i eraill. "Byddai wedi bod yn bechod pe taswn i wedi ymddeol a rhoi fy nhraed i fyny, a dim ond disgwyl am Dduw," meddai.

Y RHAGLEN DOD I DDEALL (*GET INTO*)

AR ÔL I GARY THOMPSON (AR Y DDE) SYMUD I'R DU YN 2001 O JAMAICA, FE GAFODD BETH TRAFFERTH I SETLO I FYWYD YM MHRYDAIN A BU DOD O HYD I WAITH YN BROBLEM WIRIONEDDOL OHERWYDD EI DDIFFYG PROFIAD. FE GLYWODD WEDYN AM RAGLENNI 'DOD I DDEALL' YR YMDDIRIEDOLAETH SY'N CYNNIG PROFIAD GWAITH A CHEFNOGAETH WRTH DDATBLYGU SGILIAU YMARFEROL, GAN AGOR DRYSAU NEWYDD YM MYD GWAITH. FE YMUNODD GARY Â CHWRS DOD I DDEALL COFFI A GYNIGIODD SET GYFAN O SGILIAU IDDO GAEL GWEITHIO FEL BARISTA (GWNEUTHURWR COFFI ESPRESSO PROFIADOL). AR SAIL EI LWYDDIANT AR Y CYNLLUN, MAE GARY'N LLAWN UCHELGAIS A HYDER YNGHYLCH EI DDYFODOL: "AR ÔL Y CWRS, FE GEFAIS I WAITH GYDA CAFFÉ NERO. WEDYN ES I YMLAEN I CARLUCCIO'S AC RWY'N GWEITHIO I GAGGIA NAWR. RWY'N MWYNHAU'R GWAITH YN FAWR AC RWY'N BWRIADU DAL I WEITHIO AC ENNILL PROFIAD. UN DIWRNOD, FE HOFFWN I SEFYDLU FY MUSNES FY HUN.

IECHYD

Ers peth amser, bu Tywysog Cymru'n ymwneud â nifer o wahanol fudiadau gofal iechyd drwy gynnig help ar ffurf cefnogaeth bersonol a chyllid, a thrwy ymweld yn rheolaidd ag ysbytai a hosbisau. Wrth wraidd ei agwedd at faterion iechyd y mae'r cysyniad o ofal iechyd integredig. System yw hon sy'n diogelu cleifion mewn amgylchedd cadarn, wedi'i reoli, dan gefnogaeth addas y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, fel y gallan nhw fynd yn rhwydd at driniaethau meddygol confensiynol ac at wahanol fathau o ofalon a therapïau cyflenwol.

Fe gafodd Sefydliad Tywysog Cymru er Iechyd Integredig (*The Prince of Wales's Foundation for Integrated Health*) ei sefydlu naw mlynedd yn ôl i helpu i gynnig triniaethau meddygol diogel, effeithiol ac effeithlon i gleifion. Mae'r Sefydliad yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno gofal iechyd integredig, yn arbennig drwy annog ymarferwyr confensiynol a rhai cyflenwol i weithio gyda'i gilydd.

Un o brif nodau'r Sefydliad yw gwella'r wybodaeth sydd ar gael i gleifion er mwyn eu helpu nhw i ddewis yn well. Un o brif ddatblygiadau 2004-05 felly oedd lansio llawlyfr i gleifion ym mis Chwefror ar ofal iechyd cyflenwol. Roedd yr Adran Iechyd yn ariannu'n rhannol y gwaith o greu'r llawlyfr, ac mae'r llawlyfr yn cynnig gwybodaeth ymarferol i fwy a mwy o bobl sy'n mynd at ymarferwyr cyflenwol ar draws y wlad.

Mae'r llyfryn 50 tudalen yn manylu ar 16 o'r therapïau cyflenwol mwyaf poblogaidd, yn cynnwys aciwbigo, aromatherapi a meddyginiaethau llysieuol. Mae'n rhestru rhagofalon cyffredinol ac yn tynnu sylw at rai pethau i'w hystyried cyn mynd i gael triniaeth. Mae hefyd yn rhestru ffynonellau eraill o wybodaeth, yn cynnwys rhai ar y Rhyngrwyd. Agwedd bwysig ar y llawlyfr yw'r ffaith ei fod yn annog pob claf i drafod unrhyw driniaethau cyflenwol posib gyda'i feddyg teulu.

Bu'n bosib i'w Uchelder Brenhinol weld rhai o'r triniaethau yma'n cael eu defnyddio pan aeth i Ganolfan Feddygol Blackthorn yn Maidstone, Caint, ym mis Tachwedd. Fe enillodd y Ganolfan sawl gwobr, a bu'n bosib i'r Tywysog gwrdd nifer o'r cleifion sy'n elwa ar ddulliau'r ganolfan ym maes iechyd integredig. Llwyddodd y ganolfan i ennill gwobr Gofal Iechyd Integredig y Sefydliad yn 2001, ac mae'n trin tua 400 o gleifion y flwyddyn. Mae'n gweithio'n agos gyda Phractis y Meddygon Teulu GIG lleol, ac mae cysylltiadau cadarn ganddi â'r gymuned leol a'r gwasanaethau cymdeithasol.

Yn ystod ei ymweliad, fe aeth y Tywysog i gwrdd Christine Armitage o Ightham, Caint, a fu'n ymweld â'r ganolfan ers bron i flwyddyn ar ôl cael gwybod bod canser y fron arni. Dywedodd Mrs Armitage y bu Ysbyty Maidstone yn trin ei chyflwr â meddyginiaethau confensiynol, ond bu Canolfan Feddygol Blackthorn yn trin effeithiau seicolegol ei chlefyd. Fe esboniodd: "Mae angen mwy o help arnaf i ddal ati. Wrth gerdded i mewn i'r ganolfan, roedd popeth yn teimlo'n iawn. Fe ddylai fod mwy o lefydd fel hyn ar gyfer pobl o bob rhan o'r wlad."

Bu gweithio gydag elusennau canser yn un o flaenoriaethau Ei Uchelder Brenhinol erioed. Y llynedd, bu'n rhan o nifer o wahanol ddigwyddiadau yn y maes yma, yn cynnwys llywyddu mewn cinio ar gyfer Canolfan Cymorth Canser Bryste ac mewn derbyniad ar gyfer Gofal Canser Marie Curie (dwy elusen y mae'r Tywysog yn eu noddi). Hefyd, fe wahoddodd y Tywysog grŵp o blant â chanser o Ysbyty Llandochau yng Nghaerdydd, De Cymru, i ymuno ag e a Duges Cernyw am de parti yn Clarence House i ddathlu'r Nadolig.

Y Tywysog yn rhannu jôc â staff yn ystod achlysur agor Sefydliad y Fron yn Ysbyty'r Ddinas, Nottingham.

Drwy gwrteisi Arthur Edwards

Un o uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd araith a draddododd Ei Uchelder Brenhinol ym mis Mehefin 2004 mewn cynhadledd ar ganser dan arweiniad pump o brif elusennau, yn cynnwys Sefydliad Tywysog Cymru er Iechyd Integredig. Bu'r Tywysog yn annerch dros 200 o weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr ym maes gofal iechyd a chynrychiolwyr y llywodraeth yng Ngholeg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynecolegwyr. Dywedodd y Tywysog fod arolwg diweddar wedi dangos bod 80 y cant o gleifion canser yn rhoi cynnig ar therapïau cyflenwol ar ryw adeg, ar ôl cael diagnosis.

"Fy argraff i yw bod angen i ni roi mwy o amser ac adnoddau i'r dasg o ymchwilio a datblygu dulliau integredig o gyflwyno gofal iechyd," meddai'r Tywysog. "Rhaid i ni gomisiynu a chreu ymchwil sy'n asesu pa mor effeithiol yw meddygaeth gyflenwol, gan fyfyrio ar y meddyginiaethau mae cleifion yn eu defnyddio heddiw."

Y Tywysog yn arbrofi ag offeryn cerdd yng Nghanolfan Feddygol Blackthorn, Caint, yn ystod achlysur agor canolfan iechyd integredig newydd.
Drwy gwrteisi Arthur Edwards

GOSOD SAFONAU

YM MIS RHAGFYR, FE GYHOEDDODD YR ADRAN IECHYD EU BOD YN DYFARNU GRANT O £900,000 I SEFYDLIAD TYWYSOG CYMRU ER IECHYD INTEGREDIG I GEFNOGI EI WAITH WRTH OSOD SAFONAU YM MAES GOFAL IECHYD CYFLENWOL. BYDD YR ARIAN YN HELPU I ARIANNU YMCHWIL FYDD YN GOFALU BOD Y CYHOEDD YN GALLU MYND AT YMARFERWYR DIOGEL, CYMWYS, SYDD WEDI'U RHEOLEIDDIO.

AR HYN O BRYD, MAE TUA 47,000 O YMARFERWYR CYFLENWOL YN Y DU, AC MAE NIFER O'R RHAIN HEB EU RHEOLEIDDIO. YN ÔL JONATHAN COE, PRIF WEITHREDWR Y RHWYDWAITH ER ATAL CAMDDEFNYDD PROFFESIYNOL, BYDDAI CYLLID Y LLYWODRAETH YN NEWYDDION DA I'R CYHOEDD AC I YMARFERWYR FEL EI GILYDD. FE DDYWEDODD: "Y SEFYDLIAD ER IECHYD INTEGREDIG YW'R UN ASIANTAETH BWYSICAF YN Y GWAITH O DDATBLYGU DULLIAU ADDAS O DDIOGELU'R CYHOEDD WRTH CHWILIO AM THERAPÏAU CYFLENWOL. BYDDAI GRANT YR ADRAN YN CYNNAL Y CYNNYDD WRTH I NI WEITHIO AT REOLEIDDIO'N EFFEITHIOL.

YN YSTOD ACHLYSUR CYHOEDDI'R DYFARNIAD, DYWEDODD STEVE CATLING, PENNAETH SAFONAU PROFFESIYNOL A PHENSIYNAU YN YR ADRAN IECHYD, FOD Y SEFYDLIAD EISOES WEDI CYFRANNU'N SYLWEDDOL AT Y GWAITH O DDATBLYGU GWELL RHEOLEIDDIO PROFFESIYNOL. FE YCHWANEGODD: "MAE'N MYND YN FWY A MWY HANFODOL I BOBL ALLU YMDDIRIED YN EU HYMARFERWYR GOFAL IECHYD AC YN Y CYRFF SY'N EU HYFFORDDI, EU TRWYDDEDU A'U RHEOLEIDDIO NHW, FEL EI GILYDD."

ADDYSG

Daw dau o brif amcanion gwaith Tywysog Cymru - helpu pobl ifanc i gyflawni'u potensial llawn a hybu'r dasg o fuddsoddi yn nyfodol y wlad – at ei gilydd yn ei gefnogaeth at wella darpariaethau addysgol a chyfleoedd yn y DU. Mae'r gefnogaeth yma'n amlwg ar draws nifer o elusennau Ei Uchelder Brenhinol, yn cynnwys Ysgol Lluniadu'r Tywysog (*The Prince's Drawing School*) ac Ysgol Gelfyddyd Draddodiadol y Tywysog (*The Prince's School of Traditional Arts*), *Prince's Trust,* Celfyddyd a Busnes (*Arts & Business*) a Chelfyddyd a Phlant (*Arts & Kids*). Mae'n aelod oes o Gymdeithas Genedlaethol y Prif Athrawon ac mae'n noddi llawer o achosion addysgol.

Un o fentrau addysgol mwyaf amlwg y Tywysog yw ei Ysgol Haf Addysg sydd bellach yn ei phedwaredd flwyddyn. Fe gafodd ei sefydlu yn 2002 fel cyfle i athrawon Saesneg a Hanes ysgolion uwchradd gwladol ddod at ei gilydd yn flynyddol gydag awduron ac academyddion amlwg i drafod yr elfennau hanfodol ar eu pynciau, a dod o hyd i ysbrydoliaeth newydd wrth addysgu. Un o brif nodau'r Ysgol yw ategu pwysigrwydd y broses o drosglwyddo gwybodaeth a chariad at ddysgu fel sylfeini addysg dda; nid dim ond dysgu sgiliau a gallu llwyddo mewn arholiadau.

Yn Ysgol Haf Mehefin 2004, daeth athrawon o ogledd Lloegr at ei gilydd i'r Palace Hotel, Buxton, Swydd Derby. Fe dreulion nhw bedwar diwrnod yn trafod ac yn dadlau, gan chwilio am ysbrydoliaeth drwy rannu profiadau a gwrando ar siaradwyr gwadd fel yr awdur Robert Harris, yr haneswyr Simon Schama a David Starkey, a'r nofelydd PD James. Fe draddododd Ei Uchelder Brenhinol y brif araith gan esbonio'i farn y dylai addysg "agor meddyliau pobl". Pwysleisiodd ei bod hi'n bwysig i athrawon ysbrydoli disgyblion drwy brofiad ac emosiwn.

Roedd digwyddiad 2004 yn llwyddiant mawr arall. Ar ôl tair blynedd, mae'r Tywysog yn awyddus i'w Ysgol Haf esblygu, yn rhannol am ei bod i'w gweld wedi adnabod a llenwi gwir fwlch yn y farchnad. Yn sgil hynny ac ar ôl gwneud astudiaeth i fesur pa mor ymarferol fyddai'r cyfleoedd i'r Ysgol dyfu yn y dyfodol, mae gwaith wedi dechrau'n barod wrth geisio dod o hyd i ffyrdd newydd o ofalu bod mwy o athrawon yn elwa ar y cyfleoedd unigryw y mae'r Ysgol yn eu cynnig.

Yn ogystal â cheisio ysbrydoli athrawon ysgolion uwchradd, y llynedd fe wahoddodd Ei Uchelder Brenhinol benaethiaid ysgolion cynradd i dderbyniad yn Highgrove er mwyn diolch iddyn nhw am eu gwaith a'u cyfraniad at gymdeithas. Daeth y penaethiaid o nifer o ysgolion sy'n gwella ar ôl cael eu henwi yn Adroddiad Blynyddol 2002-2003 Ofsted. Yn ystod y derbyniad, fe sgwrsiodd y Tywysog â'i westeion am y prif agweddau ar eu bywydau gwaith o ddydd i ddydd, fel disgyblaeth, maint ysgolion, newidiadau i'r cwricwlwm, biwrocratiaeth ac arholiadau.

Roedd y gwesteion yn Highgrove yn cynnwys David Bell, y Prif Arolygydd Ysgolion. Fe ddywedodd yntau ei bod hi'n bwysig cydnabod gwaith nodedig gweision cyhoeddus fel penaethiaid ysgolion. Dywedodd Christine Graham, pennaeth Ysgol Gymunedol Falla Park, Gateshead, fod y gwahoddiad i Highgrove wedi creu argraff ar rieni a disgyblion ei hysgol, fel ei gilydd. "Rydyn ni mewn ardal sydd dan anfantais enfawr ac mae'n golygu llawer i ni fod Tywysog Charles yn cydnabod ein gwaith caled," meddai hi.

Mae'n amlwg fod yr amgylchedd ffisegol mae plant yn dysgu ynddo'n helpu neu'n rhwystro'u datblygiad. Yn ystod y flwyddyn, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i ymweld â dwy ysgol lle mae gwaith adfer ac ailwampio hen adeiladau wedi adfywio'r ysgolion a'r cymunedau lleol.

Ym mis Gorffennaf 2004, fe deithiodd y Tywysog i Eltham i agor Gardd Gloestr newydd yn Ysgol Gynradd Deansfield ac i ymweld ag adeiladau'r feithrinfa a gafodd eu hadfer. Roedd y Tywysog yn cymryd diddordeb arbennig yn yr ardd gan mai amrywiaeth y gwahanol grefyddau – Bwdhaeth, Islam a Christnogaeth yn arbennig – oedd ei hysbrydoliaeth. Disgyblion sy'n aelodau o glwb garddio'r ysgol a ddyluniodd yr ardd dan arweiniad Mark Hoare, un o fyfyrwyr gradd Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig.

Fe gafodd yr ardd ei chreu nid yn unig i gynnig lle tawel i'r plant o fewn y buarth chwarae, ond hefyd i bwrpasau ymarferol. Roedd yn bleser mawr gan y Tywysog weld gardd lysiau ynddi ac fe ddywedodd bod angen mawr i ddisgyblion "ddeall y pridd ac i ailddarganfod o ble mae ein bwyd ni'n dod."

Ym mis Medi'r llynedd, fe agorodd Ei Uchelder Brenhinol yr Hen Ysgol Belmont yn Belfast, Gogledd Iwerddon. Adeilad o bwys yw hwn sydd wedi'i restru, ac fe gafodd ei adfer i'w hen ogoniant fel cartref i gyfres o weithgareddau ar gyfer yr ysgol a'i chymuned leol. Ar ôl yr agoriad, fe gafodd y Tywysog gyfle i gwrdd staff a disgyblion ar ddiwrnod cyntaf y tymor newydd, a chael sgwrsio â nhw. Roedd yr ymrwymiad yma yn Ysgol Belmont yn rhan o ymweliad dau ddiwrnod a wnaeth Ei Uchelder Brenhinol â'r Dalaith.

"Mae angen mawr i ddisgyblion ddeall y pridd ac i ailddarganfod o ble mae ein bwyd ni'n dod."
Tywysog Cymru, 2004

SGILIAU TRADDODIADOL

YN OGYSTAL Â'I WAITH YM MAES ADDYSG, BU TYWYSOG CYMRU YN Y BLYNYDDOEDD DIWEDDAR YN AWYDDUS IAWN I ANNOG MWY O ADDYSGU AR Y SGILIAU CREFFT TRADDODIADOL. PWRPAS GWNEUD HYN FYDDAI RHOI SYLW I'R PRINDER MAWR O WEITHWYR CREFFT GALLUOG YN NIWYDIANT ADEILADU'R DU.

GAN GOFIO'R NOD YNA, FE AETH EI UCHELDER BRENHINOL Y LLYNEDD I GASTELL FYVIE YN SWYDD ABERDEEN (AR Y DDE) I GWRDD ADEILADWYR, SEIRI MEINI A THOWYR AR DDECHRAU GWAITH ADEILADU CANOLFAN HYFFORDDI GYNTAF Y WLAD YN Y SGILIAU TRADDODIADOL. BYDD Y CYRSIAU FYDD Y GANOLFAN YN EU CYNNIG YN CYNNWYS GWAITH SEIRI MEINI, GWAITH SEIRI TRADDODIADOL, CYNNAL A CHADW GERDDI A THIRWEDDAU, CADWRAETH, A SGILIAU GWLEDIG TRADDODIADOL FEL CREU LLWYBRAU A CHODI CLODDIAU CERRIG SYCHION.

YN YSTOD Y FLWYDDYN, FE DEITHIODD Y TYWYSOG HEFYD I EFROG I AGOR Y GANOLFAN RAGORIAETH NEWYDD MEWN GWAITH SEIRI MEINI YNG NGHOLEG EFROG. NOD Y GANOLFAN YW HYBU AC ADDYSGU POB AGWEDD AR GREFFT Y SAER MAEN. MAE GWEITHDAI YNDDI SYDD Â'R CYFLEUSTERAU DIWEDDARAF, YN CYNNWYS PEIRIANNAU PROSESU CERRIG AC OFFER LLIFIO Y MAE'N BOSIB EU RHAGLENNU.

YN YSTOD YMWELIAD Y TYWYSOG, FE ESBONIODD MARC ELLINGTON, CYD-DREFNYDD PROJECT CASTELL FYVIE YN YR ALBAN, PA MOR DDIFRIFOL OEDD PRINDER CREFFTWYR. FE DDYWEDODD: "MAE DIFFYG HYFFORDDIANT YN Y SGILIAU TRADDODIADOL WEDI'N HARWAIN NI AT DROTHWY ARGYFWNG. MAE'R EFFEITHIAU I'W GWELD YN BAROD YN Y DIWYDIANT ADEILADU AC YMYSG Y RHEINI SY'N YMWNEUD Â CHADWRAETH ADEILADAU A THIRWEDDAU, GWAITH CYNNAL A CHADW A PHROJECTAU ATGYWEIRIO.

BUSNES CYFRIFOL

Ers tro byd, bu diddordeb gan Dywysog Cymru mewn materion cymunedol a bu ganddo gyswllt agos ag arweinwyr byd busnes. Ar sail hynny, mae'r Tywysog mewn lle da i ddefnyddio'i safle i helpu i ddatblygu mentrau ym maes cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ledled y DU a thramor. Ei gred yw bod y gallu gan y sector preifat i wneud gwahaniaeth sylweddol i lawer o'r sefyllfaoedd a'r problemau sy'n wynebu cymunedau.

Yn 1985, fe aeth y Tywysog ati'n fwy gweithredol i hybu dulliau cyfrifol o weithredu busnesau drwy gytuno i weithredu fel Llywydd Busnes yn y Gymuned. Erbyn hyn, mae 700 cwmni'n perthyn i'r rhwydwaith sydd wedi ymrwymo i gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol at gymdeithas. Bum mlynedd yn ddiweddarach, fe sefydlodd Ei Uchelder Brenhinol Fforwm Tywysog Cymru i Arweinwyr Busnesau Rhyngwladol (*The Prince of Wales's International Business Leaders Forum*). Nod y Fforwm yw annog busnesau ar draws y byd i weithio gyda'i gilydd i daclo tlodi, annhegwch cymdeithasol a phroblemau amgylcheddol.

Yn 1996, fe aeth ati i sefydlu *Kind Direct*. Elusen yw hon sy'n gweithredu fel man canolog i gwmnïau anfon nwyddau dros ben i gael eu hailddosbarthu at achosion da a grwpiau gwirfoddol ar draws y DU, ac osgoi gorfod cael gwared â nhw mewn safleoedd tirlenwi. Yn y blynyddoedd ers hynny, mae'r mudiadau yma, yn cynnwys Busnes yn y Gymuned yn yr Alban y mae'n gweithredu fel ei Lywydd, wedi elwa o syniadau, ysbrydoliaeth a chefnogaeth ariannol y Tywysog.

Ers cryn amser, bu helpu busnesau i leddfu problemau cymdeithasol yn ganolog i raglen A Wêl a Gred Busnes yn y Gymuned. Fe lansiodd y Tywysog y rhaglen yn 1990 ac fe gafodd nifer o ddigwyddiadau A Wêl a Gred eu cynnal y llynedd i ddangos i arweinwyr busnesau a phobl ddylanwadol eraill sut y gallan nhw effeithio'n uniongyrchol ac yn gadarnhaol ar eu cymunedau lleol.

Ym mis Mehefin, fe fu Ei Uchelder Brenhinol yn llywyddu mewn derbyniad yn Clarence House i ddynion a gwragedd busnes y DU ac Ewrop. Nod yr achlysur oedd annog mwy o gwmnïau cyfandir Ewrop i gymryd rhan yn A Wêl a Gred. Mae Busnes yn y Gymuned a'r Fforwm i Arweinwyr Busnesau Rhyngwladol yn rhedeg ymgyrch "Ymwneud ag Ewrop" ("*Engage in Europe*") ar y cyd, ac mae mudiadau partner cenedlaethol y ddau grŵp ar draws Ewrop yn cyfrannu hefyd.

Esboniodd y Tywysog yn ystod y derbyniad iddo gael ei ysbrydoli'n wreiddiol i sefydlu "Ymwneud ag Ewrop" yn 1997 ar ôl ymweld â stad dai ym Mharis a holi Busnes yn y Gymuned a oedd hi'n bosib ailadrodd ei raglen A Wêl a Gred dramor. Arweiniodd y cais yma at sefydlu seminarau rheolaidd ym mhrifddinasoedd Ewrop ac, yn y pen draw, at "Ymwneud ag Ewrop". Ymgyrch yw hon dan arweiniad dau o uwch arweinwyr busnes Ewrop: Francesco Vanni D'Archirafi, prif weithredwr Gwasanaethau Trafodion Byd-eang Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica sy'n perthyn i Citigroup, a Mike Rake, cadeirydd rhyngwladol KPMG.

Fe drefnodd Fforwm y Tywysog i Arweinwyr Busnesau Rhyngwladol seminar yn Clarence House ym mis Rhagfyr i drafod sut mae mynd ati i ddatrys yr argyfwng dŵr yn India. Yn ystod y gynhadledd, fe esboniodd y Tywysog i gynrychiolwyr cwmnïau fel Shell a GlaxoSmithKline a swyddogion elusennau fel WaterAid a *Wells for India* sut y gallai busnesau helpu i dynnu sylw at ddiffygion y cyflenwad dŵr a diffyg systemau glanweithdra addas yn India.

Yn ystod y seminar, fe drafododd y cynadleddwyr gynnig i sefydlu partneriaeth newydd fyddai'n cynnwys elusennau, cyrff cyhoeddus a chwmnïau preifat fyddai'n mynd ati i daclo'r broblem. Fe esboniodd y Tywysog wedyn pam y câi ei ysgogi i geisio gweithredu. "Dydw i ddim am glywed fy wyrion ac wyresau'n gofyn i mi 'Pam na wnest ti rywbeth am hyn?'."

Achlysur lansio nodedig arall yr aeth Ei Uchelder Brenhinol iddo'r llynedd oedd cyhoeddi ym mis Tachwedd 2004 raglen Partneriaeth Twristiaeth Ryngwladol y Fforwm i Arweinwyr Busnesau Rhyngwladol. Rhaglen newydd yw hon sydd â'r nod o hyrwyddo dull cynaliadwy sy'n ffafrio'r amgylchedd o weithredu twristiaeth ar draws y byd. Wrth lansio'r rhaglen, dywedodd Ei Uchelder Brenhinol wrth gynulleidfa oedd yn cynnwys rhai o gynrychiolwyr UNICEF, The World Wide Fund for Nature (WWF), Marriott International, National Geographic a Hilton Hotels fod posibilrwydd y gallai'r diwydiant twristiaeth byd-eang gyfrannu "yn gadarnhaol at yr amgylchedd, cyflogaeth, datblygu economaidd lleol a'r amgylchedd adeiledig."

Ym mis Mai 2004, fe siaradodd y Tywysog yn Uwchgynhadledd y Diwydiant Gwasanaethau Ariannol Islamaidd a Rheoleiddio Byd-eang yn Llundain pan alwodd ar i'r diwydiant bancio wneud mwy i helpu entrepreneuriaid Mwslimaidd ifanc. Yn ystod y gynhadledd a gafodd ei llywyddu ar y cyd gan y Fforwm i Arweinwyr Busnesau Rhyngwladol, trafododd y cynadleddwyr ffyrdd o gynnig cymorth ariannol i ddynion a gwragedd busnes Islamaidd gan gydymffurfio ag egwyddorion Islamaidd sy'n gwahardd Mwslimiaid rhag talu neu dderbyn llog. Yn ogystal â gwaith y Fforwm yn y maes yma, bu *The Prince's Trust* ers sawl blwyddyn yn cynnig i Fwslimiaid ifanc fenthyciadau cychwyn busnesau sy'n parchu egwyddorion Islamaidd.

Ym mis Mawrth 2005, fe lansiodd y Tywysog gynllun "*Melbourne Cares*" yn Awstralia. Cynllun cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol yw hwn sydd â'r nod o annog busnesau i helpu cymunedau o amddifadedd drwy annog eu staff i wirfoddoli. Fe gafodd y rhaglen *Cares* ei sefydlu i efelychu un o raglenni Busnes yn y Gymuned y DU, ar ôl iddi ddod yn amlwg nad oes mudiad yn Awstralia sy'n hyrwyddo dymuniad busnesau i helpu'r gymuned ehangach. Y gobaith yn Awstralia yw y bydd y rhaglen yn gweithredu fel sylfaen i fudiad fydd yn gweithredu ledled y wlad.

BAROD AM WAITH (*READY FOR WORK*)
YN YSTOD YMWELIAD YM MIS IONAWR Â'R CRISIS SKYLIGHT CAFÉ YN LLUNDAIN (AR Y DDE), FE GAFODD Y TYWYSOG GYFLE I GWRDD POBL DDIGARTREF A GAFODD EU HELPU GAN Y RHAGLEN "BAROD AM WAITH" SY'N CAEL EI RHEDEG GAN FUSNES YN Y GYMUNED. DAN Y CYNLLUN YMA, CAIFF CLEIENTIAID DIGARTREF GYFLE I (AIL-)YMUNO Â'R FARCHNAD WAITH, AC ENNILL HYFFORDDIANT PROFFESIYNOL, O LEIAF PYTHEFNOS O LEOLIADAU GWAITH, HYFFORDDIANT PARHAUS MEWN SWYDD A RHWYDWAITH CEFNOGI.

ROEDD Y BOBL DDIGARTREF A GAFODD Y TYWYSOG GYFLE I'W CWRDD YN CYNNWYS PAUL OEDD Â STORI SY'N NODWEDDIADOL O'R RHEINI OEDD AR RAGLEN BUSNES YN Y GYMUNED. ROEDD PAUL YN GYFARWYDDWR AR GWMNI ARIANNOL ENWOG YN UDA OND PAN GAFODD EI EFFEITHIO GAN ANHWYLDER DEUBEGWN OEDD YN ACHOSI ISELDER, FE GOLLODD EI SWYDD, EI WRAIG A'I GARTREF.

FE GOLLODD PAUL REOLAETH AR EI FYWYD AC ARWEINIODD EFFEITHIAU'I ANHWYLDER AT GYFNOD MEWN CARCHAR. AR ÔL CAEL EI RYDDHAU, FE GLYWODD PAUL AM RAGLEN "BAROD AM WAITH", AC AR ÔL LLEOLIAD GWAITH O BYTHEFNOS GYDA CHWMNI CISCO SYSTEMS, FE DDECHREUODD AR YRFA NEWYDD YM MYD TECHNOLEG GWYBODAETH.

YR AMGYLCHEDD NATURIOL

Ers degawdau, mae Tywysog Cymru wedi dangos diddordeb personol byw mewn materion amgylcheddol. Y prif themâu y bydd yn eu crybwyll yn aml yw'r angen am ddatblygu cynaliadwy, am stiwardiaeth gyfrifol dros ein hadnoddau naturiol ac am gydweithredu ar draws y byd i ddiogelu ein treftadaeth amgylcheddol fel ei bod hi'n bosib trosglwyddo'r byd i genedlaethau'r dyfodol yn ei gyflwr gorau posib.

Roedd yr angen i lywodraethau'r byd gydweithio i ddiogelu'r amgylchedd yn un o brif negeseuon cynhadledd yn Llundain y llynedd i ddathlu 10 mlynedd ers i raglen Busnes a'r Amgylchedd Tywysog Cymru (*The Prince of Wales's Business and the Environment Programme*) gael ei sefydlu. Fe gafodd y rhaglen ei sefydlu yn 1994 i helpu cwmnïau i gyfuno cysyniad datblygu cynaliadwy â natur meddwl ac ymarferion eu busnesau. Fe ddathlodd Busnes a'r Amgylchedd ei ddegawd cyntaf drwy wahodd Y Gwir Anrhydeddus Tony Blair AS, y Prif Weinidog, i annerch 400 o arweinwyr busnesau ac amgylcheddwyr yn Neuadd Wledda Westminster ym mis Medi.

Yn ei araith, rhybuddiodd y Prif Weinidog fod y blaned yn wynebu "trychineb" posib pe na bai'r byd yn gweithio gyda'i gilydd i ddelio â newid yn yr hinsawdd. Roedd allyrru nwyon tŷ gwydr, meddai, yn achosi cynhesu byd-eang "ar raddfa sydd ... mewn gair, yn amhosib ei chynnal yn y tymor hir."

Fe gafodd natur ddifrifol rhybudd y Prif Weinidog ei hatseinio gan Ei Uchelder Brenhinol wrth iddo dynnu sylw at un o'r nifer o heriau amgylcheddol sy'n wynebu'r blaned, sef dinistr "cwbl warthus" stociau'r byd o bysgod. Bu'r Tywysog yn ymgyrchu ers rhai blynyddoedd am ddull mwy cynaliadwy o weithredu pysgota masnachol. Fe roddodd sylw i'r un pwnc yn gynt yn y flwyddyn pan aeth ym mis Ebrill 2004 i Plymouth, Dyfnaint, i lansio Buddsoddwch mewn Pysgod ("*Invest in Fish*"), project newydd sydd â'r nod o reoli fflydoedd pysgota'r De Orllewin.

Mae pysgotwyr, cadwraethwyr a manwerthwyr fel Marks & Spencer yn cefnogi'r project. Wrth lansio'r rhaglen, fe ddywedodd Ei Uchelder Brenhinol fod sefydlu ardaloedd wedi'u diogelu yn nyfroedd Prydain yn hanfodol os yw'r stociau pysgod ac amgylchedd y môr i gael eu hadfer yn llawn.

Mae technegau modern o bysgota'n bygwth nid yn unig cyflenwad y môr o bysgod, ond maen nhw hefyd yn gallu gwneud difrod mawr i'r ecosystem ehangach. Er enghraifft, mae perygl i'r albatros ddiflannu oherwydd y dull diwahân o bysgota â lein hir sydd yn lladd amcangyfrif o 100,000 o'r adar y flwyddyn. Ym mis Ebrill 2004, fe draddododd y Tywysog araith ym Mhrifysgol Heriot-Watt yng Nghaeredin gan alw ar wledydd y byd i gadarnhau'r cytundeb ar Gadwraeth Albatrosod a Gwylanod y graig.

Mae unig gytref fridio'r albatros ar dir mawr y byd yn Seland Newydd. Ym mis Mawrth eleni, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i ymweld â Chanolfan Frenhinol yr Albatros ar benrhyn Otago. Wrth iddo synnu at yr adar - bu'n bosib iddo fynd o fewn tair troedfedd i fam a'i chyw ar ei nyth - fe siaradodd y Tywysog yn daer am yr angen i'r byd cyfan weithredu i ddiogelu'r rhywogaeth. "Mae'n amhosib i mi dderbyn y gallai'r adar yma ddiflannu am byth un diwrnod," meddai. "I mi, mae'n bosib mai'r albatros yw'r prawf eithaf ar ein gallu fel rhywogaeth ein hunain i gymryd cadwraeth o ddifrif; rhaid gofyn a yw'r gallu gennyn ni i gyd-fyw ar y blaned yma â rhywogaethau eraill."

Yn ystod y flwyddyn, fe gynigiodd Ei Uchelder Brenhinol ei gefnogaeth i ymgyrch sy'n ceisio achub fforest law Indonesia rhag cael ei dinistrio. Mewn derbyniad yn Clarence House ym mis Mehefin ar gyfer BirdLife International, fe gwrddodd gynrychiolwyr llywodraeth Indonesia a'r prif fudiadau diogelu adar i drafod yr her sy'n ein hwynebu wrth geisio diogelu fforest law Swmatra.

DUCHY ORIGINALS

Fe ddechreuodd Tywysog Cymru ei gwmni bwyd ei hun, *Duchy Originals*, yn 1992 drwy lansio'i gynnyrch cyntaf – bisgedi o wenith a cheirch a gafodd eu tyfu'n organig ar Home Farm, Highgrove. Ers hynny, tyfodd y cwmni'n un o frandiau bwydydd a diodydd organig a naturiol mwyaf amlwg a llwyddiannus y DU. Mae'r cwmni'n gwerthu dros 140 o wahanol gynhyrchion gan greu gwerthiant manwerthu blynyddol o bron £40 miliwn.

Pan symudodd Ei Uchelder Brenhinol i stad wledig Highgrove ar ddechrau'r 1980au, roedd diddordeb ganddo'n barod yn egwyddorion cynaliadwyedd a ffermio organig. Erbyn 1986, roedd yn bosib gweithredu dyheadau organig y Tywysog drwy ddechrau ar y gwaith o drosi Highgrove a'r Duchy Home Farm oedd o'i gwmpas. Yn 1990, fe gomisiynodd y Tywysog waith ymchwil i fesur pa mor ymarferol oedd rhedeg nifer fach o fentrau marchnata amaethyddol oedd â'r nod o gynhyrchu arian ar gyfer ei achosion elusennol. Ddwy flynedd wedi hynny, fe gafodd cynnyrch cyntaf Duchy Originals ei lansio.

Wrth siarad am ei benderfyniad i sefydlu'i fusnes ei hun, dywedodd Y Tywysog: "Fy nod wrth gychwyn y cwmni oedd, yn y lle cyntaf, gweithredu er lles yr amgylchedd ac iechyd y pridd drwy ddefnyddio dulliau mwy cynaliadwy o ffermio. Yn ail, roeddwn am dynnu sylw at fanteision marchnata â mwy o werth. Yn drydydd, roeddwn am helpu ffermwyr i wynebu beth oedd i'm tyb i'n ddyfodol ansicr. Wrth greu'r holl gynnyrch yma, fe geisiais ddweud stori a chreu 'cylch rhinweddol' lle bynnag y gallwn i."

Erbyn heddiw, mae poblogrwydd brand Duchy Originals wedi arwain at ail flwyddyn olynol y cwmni yn 2004-05 o gyflawni elw blynyddol o dros £1 miliwn. Aeth cyfanswm yr elw a roddodd y cwmni i sefydliad elusennol Tywysog Cymru i dros £4.5 miliwn. Drwy weithio gyda rhai o brif gynhyrchwyr a gwneuthurwyr bwyd y wlad, fe lwyddodd nifer o gynhyrchion Duchy Originals i ennill sawl gwobr. Mae'r holl gynhyrchion yn cael eu gwneud yn y DU a, lle bynnag mae hynny'n bosib, cynhwysion o'r DU sydd ynddyn nhw, o fêl yr Alban i hops Caint. Cynhwysion o'r Home Farm sydd yn bron i draean o gynnyrch organig Duchy Originals.

Dros y 13 mlynedd ddiwethaf, mae gwaith y cwmni wedi symud at agweddau eraill ar gynhyrchu cynaliadwy. Er enghraifft, mae Duchy Originals yn gweithio gyda Chyngor Stiwardiaeth y Môr (*Marine Stewardship Council* - MSC) i gefnogi pysgodfeydd cynaliadwy a gwneud pobl yn ymwybodol o'r angen am warchod diwydiant pysgota lleol Prydain. Dilyniant yw'r bartneriaeth â'r MSC i ymweliad Tywysog Cymru yn 2001 â Padstow yng Nghernyw. Yno, fe gyflwynodd safon amgylcheddol yr MSC i'r cwmni lleol Handline Fishery. Yn Padstow, mae'r pysgotwyr lleol yn dal eu pysgod mewn dyfroedd mewndirol, ac fe gân nhw eu cyfyngu i bysgod dros 20cm o hyd. Drwy weithredu fel hyn, mae'n bosib gwarchod y stociau o bysgod, diogelu bywoliaeth pysgotwyr lleol a diogelu cynefinoedd pysgod dyfroedd yr arfordir sy'n cynhyrchu'r mecryll sydd ym mhâté mecryll Duchy Originals.

Yn 2003, fe symudodd y cwmni at gynnyrch heblaw bwyd, dan y label Duchy Collection. Fe gyflwynodd ddewis o ddodrefn awyr agored o bren cynaliadwy'r gastanwydden felys o stad Dugaeth Cernyw yn Swydd Henffordd. Syniad y Tywysog ei hun oedd gwneud dodrefn gan ei fod yn awyddus i hybu'r dasg o reoli fforestydd mewn ffordd gynaliadwy. Yn 2005, fe gyflwynodd Duchy Originals gasgliad o gynnyrch ar gyfer y gwallt a'r corff. Cynhwysion naturiol o blanhigion sydd yn y cynnyrch yma, wedi'u trwytho ag olewau naws. Erbyn heddiw, mae Duchy Originals yn dal i adlewyrchu ymrwymiad gwreiddiol y Tywysog i greu cylch rhinweddol, lle mae busnes sy'n cynnig bwydydd naturiol o ansawdd a chynhyrchion eraill yn creu elw ar gyfer elusennau, gan helpu i ddiogelu a chynnal yr amgylchedd naturiol.

Llaeth o'r gwartheg Swydd Aeron
yn mynd i Laeth Organig Highgrove.

YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG

Mae awydd Ei Uchelder Brenhinol i ddiogelu a chynnal yr amgylchedd naturiol yn cyfateb i'w ddiddordeb yn yr amgylchedd adeiledig a'r ffordd yr effeithia ar ansawdd bywydau pobl. Wrth edrych i'r dyfodol, creda'r Tywysog fod angen gwneud mwy i greu ardaloedd trefol â graddfa ddynol sy'n annog synnwyr o gymuned a balchder a, thrwy hynny, yn helpu i leddfu problemau cymdeithasol fel fandaliaeth ac allgáu cymdeithasol. Wrth barchu'r gorffennol, creda Ei Uchelder Brenhinol mewn cefnogi'r gwaith o adfer ac ailddatblygu ein treftadaeth bensaernïol a gafodd ei hesgeuluso a'i gadael. Y nod yw achub adeiladau a llefydd hanesyddol er lles y genedl a helpu i hybu'r gwaith o'u hadfywio fel cartrefi neu i bwrpasau masnachol.

Er mwyn gweithredu ei syniadau a'i egwyddorion, mae Ei Uchelder Brenhinol wedi creu Poundbury, estyniad ar dref Dorchester, Dorset, a sefydlu ei elusen, Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig (*The Prince's Foundation for the Built Environment*). Dyma unig sefydliad y DU sy'n arbenigo ar gynnig gwasanaethau ymgynghori ac addysg i brojectau mawr sy'n datblygu neu'n adfywio trefi.

Yn Poundbury, mae'r Tywysog wedi goruchwylio er 1993 y gwaith o ddatblygu tref fechan newydd wedi'i dylunio'n benodol er lles y rheini sy'n byw ac yn gweithio yno. Hanfod Poundbury yw integreiddio'r defnydd o dir. Yn wahanol i'r arfer o greu parthau yn y blynyddoedd ar ôl y rhyfel, mae swyddi, hamdden a chyfleusterau addysgol a siopa'n cael eu cyfuno ag adeiladu tai, sydd ei hun yn gymysgedd o dai fforddiadwy a thai preifat. Mae sylw'n cael ei roi i geir, ond fe gân nhw eu cyfyngu gan strydoedd troellog a'u casglu mewn closydd parcio cefn. Mae'r flaenoriaeth ar bobl sy'n cerdded ac yn beicio, a phwyslais mawr ar ansawdd y drefwedd.

Bu'r canlyniadau mor llwyddiannus fel bod y Llywodraeth yn canmol Poundbury fel model ar gyfer twf newydd. Ym mis Medi, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol â'r Gwir Anrhydeddus Keith Hill AS, y Gweinidog dros Dai a Chynllunio, o gwmpas Poundbury. Roedd hon yn un o deithiau a drefnodd y Tywysog yn ystod 2004 i ddangos sut mae'r datblygiad yma wedi symud ymlaen yn ystod y 25 mlynedd ddiwethaf, ac i drafod y syniadau sy'n sylfaen iddo.

Ar ôl ei daith, fe ddywedodd Mr Hill: "I mi, mae Poundbury'n edrych fel cymuned. Dyna'r neges rydyn ni am ei chyfleu i'r wlad gyfan - mai dyma'r ffordd ymlaen." Dywedodd Mr Hill fod y Tywysog wedi esbonio nad yw'n awgrymu y dylid copïo 'edrychiad' Poundbury mewn llefydd eraill ar draws y wlad, dim ond rhai o'r egwyddorion sylfaenol. Yn ôl Mr Hill: "Dyma'r egwyddorion yr hoffen ni eu gweld yn cael eu hymestyn ar draws y wlad gyfan: dwysedd uchel er mwyn peidio â chymryd gormod o'r cefn gwlad; defnydd cymysg lle mae ffatrïoedd a swyddfeydd yn bodoli ochr yn ochr â chartrefi; tenantiaid cymdeithasol yn byw ar rent ochr yn ochr â pherchnogion sy'n byw yn eu tai eu hunain; a'r defnydd o ddeunyddiau ardderchog.

Mewn ymweliadau eraill, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol â grŵp o 25 Aelod Seneddol o bob parti o gwmpas Poundbury, grŵp o ddatblygwyr eiddo a gafodd ei gynnull gan yr elusen *World Jewish Relief*, a'r Gwir Anrhydeddus Gordon Brown AS, Canghellor y Trysorlys.

Mae'r egwyddorion cynllunio a dylunio sydd ar waith yn Poundbury'n cael eu defnyddio hefyd wrth ddatblygu estyniad arall ar dref ar dir Dugaeth Cernyw. Ym mis Medi 2004, fe aeth y Tywysog i ymweld â'r safle 250 erw y tu allan i Newquay, Cernyw, i ddysgu sut roedd gwaith cynllunio'r datblygiad yn symud ymlaen ac i gwrdd aelodau chwe gweithgor. Ar y pryd, roedd aelodau'r gweithgorau'n paratoi ar gyfer proses ymgynghori "Ymholi drwy Ddylunio ("Enquiry by Design") sy'n cael ei rhedeg gan Sefydliad y Tywysog er yr Amgylchedd Adeiledig.

Fe gafodd rhaglen Ymholi drwy Ddylunio ei chyflwyno gan y Sefydliad fel ffordd o gynnwys pobl leol o'r cychwyn cyntaf yn y cynigion datblygu drwy osod eu hanghenion a'u dyheadau wrth wraidd y broses ddylunio. Roedd y syniadau oedd dan sylw ar gyfer yr ardal yn cynnwys tai fforddiadwy i bobl leol drwy gynnig gwahanol ddaliadaethau (yn cynnwys tai i'w rhentu, ecwiti rhannol a rhydd-ddaliadau fforddiadwy), lle i greu swyddi ac ysgol gynradd newydd.

Wrth gwrdd y grwpiau sy'n ymwneud â phroject Newquay, soniodd y Tywysog sut roedd eu gwaith a'u hymdrechion wedi gwneud argraff arno. Fe ddywedodd wrthyn nhw: "Yn fy marn i, gallwn ni ond

adeiladu llefydd gwir lwyddiannus sy'n mynd i bara drwy gynnwys y gymuned leol yn y broses o'u dylunio nhw."

Yn Poundbury a Newquay, un o'r prif uchelgeisiau oedd creu cymuned ddiogelach ac iachach ar gyfer ei thrigolion. Tynnodd y Tywysog sylw at y thema yma eto wrth annerch cynhadledd Coleg Brenhinol y Meddygon ym mis Chwefror 2005. Pwnc ei araith oedd sut mae cynllunio adeiladau, dinasoedd a threfi Prydain yn wael yn gallu arwain at broblemau iechyd.

Yn ei araith, soniodd Ei Uchelder Brenhinol am ei bryder wrth weld cynnydd yn nifer y bobl sy'n dioddef o alergedd yn y DU ac wrth weld twf "syndrom yr adeilad tost". Fe ddywedodd: "Rydyn ni'n dechrau gweld ein bod ni, wrth adeiladu'n wael, yn effeithio ar nid yn unig iechyd yr amgylchedd naturiol, ond ar ein hiechyd ninnau hefyd."

Tynnodd y Tywysog sylw hefyd at y problemau mae cymunedau sy'n or-ddibynnol ar geir yn eu hachosi. "Yn araf iawn, rydyn ni'n dechrau sylweddoli ein bod ni, drwy roi'r car yng nghanol y broses o gynllunio trefi a dinasoedd, yn creu effeithiau anffafriol fel gordewdra, clefyd y galon, asthma a chlefydon resbiradol. Wrth roi'r cerddwr yng nghanol y broses, fe allan ni greu cymdogaethau deniadol sydd wedi'u trefnu'n dda ar gyfer pobl."

Yn ogystal â helpu i greu gwell cymunedau at y dyfodol, mae Ei Uchelder Brenhinol hefyd yn awyddus i warchod goreuon treftadaeth adeiledig y genedl. Yn ystod y flwyddyn, fe gyflawnodd nifer o ymrwymiadau i weld adeiladau hanesyddol yn cael eu hadfer a'u defnyddio mewn ffyrdd newydd.

Ym mis Gorffennaf 2004, fe aeth y Tywysog i ymweld â hen ysbyty Fictoraidd yn Ninbych, Gogledd Cymru. Yno fe welodd sut y cafodd cynigion newydd Ymddiriedolaeth *Phoenix* Tywysog Cymru (*The Prince of Wales's Phoenix Trust*) i adfywio'r datblygiad eu cyflwyno ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Nod Ymddiriedolaeth *Phoenix* yw rhoi adeiladau hanesyddol mawr ar waith eto, a'r Ymddiriedolaeth sy'n ysgogi'r ymdrech i ailddatblygu safle Ysbyty Gogledd Cymru. Ym mis Mai 2005, fe gymeradwyodd yr awdurdodau lleol y cynlluniau.

Roedd ymrwymiadau eraill yn cynnwys taith i Lys a Charchar Crumlin Road, Belfast, a gafodd eu rhestru'n Radd A, ac sydd ar fin cael eu hailddatblygu i'r gymuned eu defnyddio. Fe aeth hefyd o gwmpas Iard Longau Chatham ym mis Tachwedd i helpu i ddathlu pen-blwydd Ymddiriedolaeth Iard Longau Chatham yn 20 oed. Yn ystod ei oes, mae'r Ymddiriedolaeth wedi achub ac adfer un o gasgliadau mwyaf y wlad o adeiladau rhestredig. Erbyn hyn, mae'r safle 80 erw'n gartref i amgueddfa a chanolfan i ymwelwyr, ac mae eiddo masnachol a thai'n cynnig lle a chartrefi i 100 o fusnesau bach a 400 o drigolion.

"Rydyn ni'n dechrau gweld ein bod ni, wrth adeiladu'n wael, yn effeithio ar nid yn unig iechyd yr amgylchedd naturiol, ond ar ein hiechyd ninnau hefyd."
Tywysog Cymru, 2005

Ei Uchelder Brenhinol yn ymweld â Thŷ Dolbelydr, project adfer dan reolaeth The Landmark Trust yn Nhrefnant, Cymru.
Drwy gwrteisi The Landmark Trust

Y CELFYDDYDAU

Mae Ei Uchelder Brenhinol wastad wedi bod yn frwd ei gefnogaeth i'r celfyddydau. Creda'n gryf bod rhagoriaeth gelfyddydol yn agwedd hanfodol ar gymdeithas wareiddiedig, amrywiol. Yn ogystal â'i brif elusennau'i hun – Celfyddyd a Busnes, a Sefydliad Tywysog Cymru er Celfyddyd a Phlant - mae'n gweithredu fel llywydd neu noddwr tua 30 o brif fudiadau celfyddydol y DU. Maen nhw'n cynnwys y Cwmni Shakespeare Brenhinol, Tŷ'r Opera Brenhinol, yr Academi Frenhinol a Cherddorfa'r Ffilharmonia.

Bob blwyddyn, mae Ei Uchelder Brenhinol yn gweithio'n galed i gynnal y mudiadau celfyddydol y mae'n uniongyrchol gysylltiedig â nhw. Mae'n mynd i'w cyngherddau, yn cynnal derbyniadau ar gyfer eu cefnogwyr, ac yn annog eu rhaglenni datblygu. Mae'n arbennig o awyddus i helpu pobl, yn enwedig pobl ifanc, i gael profiad o'r gorau sydd gan gelfyddydau'r DU i'w gynnig.

Wrth gofio hyn, ddwy flynedd yn ôl fe sefydlodd Celfyddyd a Phlant. Drwy weithio gyda busnesau ledled y wlad, mae Celfyddyd a Phlant yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc ddysgu am y celfyddydau creadigol. Canolbwynt ymgyrch genedlaethol yw'r mudiad sydd â'r nod o helpu plant a phobl ifanc y DU i ymwneud yn uniongyrchol â'r gwahanol fathau o gelfyddyd, yn cynnwys dawns, theatr, opera, llenyddiaeth a'r celfyddydau gweledol. Mae ei amcan yn uchelgeisiol – rhoi cyfle i filiwn o blant ymwneud â'r celfyddydau erbyn 2008.

Bu'n bosib iddo symud yn agosach at ei darged y llynedd wrth i 13,500 o blant gymryd rhan yn StoryQuest, gŵyl stori genedlaethol gyntaf y wlad i blant rhwng 10 ac 14 oed. Fe gafodd yr ŵyl ei lansio yng Ngogledd Iwerddon ym mis Medi 2004 ac mae'n caniatáu i filoedd o blant ysgol glywed straeon eu hoff awduron, beirdd ac adroddwyr straeon, yn cynnwys sêr rhyngwladol fel Louis Sachar a Meg Cabot, yr awdures Brydeinig Jacqueline Wilson a Bardd Llawryfog y Plant Michael Morpurgo.

Fel awdur llyfrau plant ei hun, bu'r Tywysog yn frwd ei gefnogaeth i'r ŵyl. Fe ddywedodd: "Drwy StoryQuest, fe fydd fy Sefydliad Celfyddyd a Phlant yn rhoi cyfle i filoedd o blant ifanc ganolbwyntio ar wefr geiriau ac adrodd straeon."

Yn nes ymlaen yn y flwyddyn, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i achlysur dathlu cyflawniadau'r Sefydliad Y Celfyddydau a Phlant yn yr Academi Frenhinol yn Llundain. Yno, fe gyhoeddodd Robin Wright, Cadeirydd Celfyddyd a Busnes y mae'r sefydliad yn rhan ohono, eu bod nhw wedi llwyddo i gyrraedd hanner ffordd i'r targed o helpu miliwn o blant i ymwneud â'r celfyddydau, a hynny mewn dim ond blwyddyn. "Fyddai hyn ddim wedi digwydd heb gefnogaeth Ei Uchelder Brenhinol," fe ddywedodd.

Un arall o uchafbwyntiau 2004-05 oedd ymweliad 30 o blant Ysgol y Priordy, Slough, â Windsor ym mis Mehefin. Fe gawson nhw gyfle prin i fynd gyda'r Tywysog y tu ôl i'r llenni i weld Cerddorfa Symffoni Llundain yn ymarfer ar gyfer digwyddiad yng Nghastell Windsor. Fe gafodd y plant eu gwahodd gan Celfyddyd a Phlant fel rhan o raglen Ddarganfod yr LSO (*LSO Discovery*), rhaglen addysgol Cerddorfa Symffoni Llundain ei hun.

Roedd yr actores Patricia Routledge yn y rihyrsal ac fe ymunodd â'r gerddorfa i ganu datganiad o "*I Am Easily Assimilated*" allan o Candide gan Leonard Bernstein. Fe fyddai'r gân yn rhan o gyngerdd arbennig yr oedd y Tywysog i'w gyflwyno'n nes ymlaen y noson honno i ddathlu canmlwyddiant y gerddorfa.

Ym mis Tachwedd, fe gyflwynodd Ei Uchelder Brenhinol y gwobrwyon i enillwyr Cystadleuaeth Arwain Donatella Flick, digwyddiad y mae'r Tywysog yn gweithredu fel ei Noddwr. Fe aeth y brif wobr i Fabien Gabel, 29, sy'n cynorthwyo Kurt Masur fel arweinydd Orchestre National de France. Yn gynt yn y flwyddyn, fe roddodd y Tywysog gynnig ar ddefnyddio baton ei hun pan aeth i'r Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain ar gyfer eu seremoni wobrwyo flynyddol. Fe arweiniodd Ei Uchelder Brenhinol, sy'n gweithredu fel Llywydd y Coleg, yr aelodau wrth iddyn nhw berfformio datganiad bywiog o "*O When The Saints Come Marching In*".

Fis Tachwedd diwethaf, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol i gyngerdd yn Llundain gan Gerddorfa Theatr Marlinsky, St Petersburg, i godi arian i'r gymuned yn Rwsia a gafodd ei heffeithio gan warchae'r ysgol yn Beslan. Ar ôl y cyngerdd, fe ddiolchodd y Tywysog, sy'n gweithredu fel Noddwr a chymwynaswr dros Theatr Marlinsky, i bawb a gefnogodd y digwyddiad. Ei obaith oedd eu bod nhw "wedi cynnig gobaith a gwaredigaeth i dref a gafodd ei chreithio gan erchyllter arswydus a chreulon." Byddai'r arian o'r

cyngerdd yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng Apêl Arbed Bywyd Beslan a rhaglen allgyrraedd ddiwylliannol newydd Theatr Marlinsky yn ardal y Cawcasws.

Yn rhinwedd ei swydd fel Llywydd y Bale Brenhinol, fe aeth Ei Uchelder Brenhinol gyda Madame Chirac i gala bale arbennig yn Opera Garnier ym Mharis i ddathlu'r 100 mlynedd ers sefydlu'r Entente Cordiale. Hwn oedd y tro cyntaf i'r Bale Brenhinol a L'Opera National de Paris berfformio gyda'i gilydd. Mewn digwyddiad arall oedd y cyntaf o'i fath, fe aeth y Tywysog ym mis Mai 2004 i gwrdd myfyrwyr yr Ysgol Fale Frenhinol yn White Lodge, Parc Richmond, Surrey. Hwn oedd ei ymweliad cyntaf â'r ysgol ers iddo olynu'r diweddar Dywysoges Margaret fel ei Llywydd.

"Drwy StoryQuest, fe fydd fy Sefydliad Celfyddyd a Phlant yn rhoi cyfle i filoedd o blant ifanc ganolbwyntio ar wefr geiriau ac adrodd straeon."
Tywysog Cymru, 2004

DIGWYDDIADAU ELUSENNOL

WRTH GREU YSGOL LLUNIADU TYWYSOG CYMRU (AR Y DDE) YM MIS MEHEFIN 2000, NOD TYWYSOG CYMRU OEDD CYNNIG CYFLE I ARTISTIAID YMESTYN EU SGILIAU, YN ENWEDIG WRTH GREU LLUNIAU DRWY ARSYLWI, MEWN AMGYLCHEDD ADDYSGOL SYMBYLOL.

ATEGWYD YMRWYMIAD YR YSGOL I WNEUD CELF YN FWY AGORED I BAWB YN 2004 DRWY LANSIO RHAGLEN BENWYTHNOS GYMUNEDOL AR GYFER PLANT DAN ANFANTAIS O FWRDEISTREFI SOUTHWARK A KENSINGTON A CHELSEA. GALL AELODAU YMUNO Â'R RHAGLEN AM DDIM, AC FE GAIFF EI CHYNNAL AR SAFLE'R YSGOL, HEN WARWS WEDI'I DRAWSNEWID YN SHOREDITCH, DWYRAIN LLUNDAIN.

CAIFF Y BOBL IFANC EU HADDYSGU AR Y CWRS GAN RAI O'R 40 ARTIST PROFFESIYNOL SY'N GWEITHREDU FEL STAFF YR YSGOL. DAW RHAI O'R ATHRAWON O'R PRIF SEFYDLIADAU FEL Y COLEG CELF BRENHINOL, YR ACADEMI FRENHINOL A'R SLADE. BU'R RHAGLEN GYMUNEDOL YN LLWYDDIANT MAWR, GAN GYNNIG CYFLE I ARTISTIAID IFANC TALENTOG FANTEISIO AR Y MATH O ADDYSGU O SAFON NA FYDDAI FYTH AR GAEL YN EU HYSGOLION EU HUNAIN.